Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Department for Economy, Science and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Medi 2016

Annwyl Mr Ramsay

Rwy'n ysgrifennu atoch fel ymateb i'ch cais dyddiedig 25 Gorffennaf am ragor o wybodaeth am Wasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru.

Rwyf wedi amgáu dogfen sy'n ceisio gwneud hyn mewn ffordd mor gynhwysfawr â phosib, ond rhowch wybod imi os hoffech ragor o wybodaeth.

Yn gywir

pp **Simon Jones**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i gais y PCC ar 25 Gorffennaf 2016 am ragor o wybodaeth am ymateb Llywodraeth Cymru dyddiedig 27 Ionawr 2016.**

**Sylwadau'r PCC:**

Ar ôl ystyried llythyr Simon Jones dyddiedig 27 Ionawr 2016, argymhellodd y pwyllgor blaenorol y dylid paratoi diweddariad pellach, gan gynnwys gwybodaeth am y duedd yn niferoedd teithwyr ac effaith cau Maes Awyr Ynys Môn yn ystod 2016, canlyniadau'r gwaith ymchwil i gyfleoedd ar gyfer ehangu gweithgareddau Maes Awyr Ynys Môn a chanlyniad caffael gweithredwr newydd tymor hir.

Byddai'n ddefnyddiol hefyd yn eich ymateb pe baech yn gallu dweud a ydych wedi ystyried neu drafod parhau'r gwasanaeth ar ôl y Refferendwm.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r PSO (Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus) wedi amrywio ers atal AOC (Tystysgrif Gweithredwr Awyrennau) Links Air ym mis Hydref. Mae'r gweithredydd presennol yn gweithio i adfer nifer y teithwyr.

Mae'n dda gan Lywodraeth Cymru allu dweud na chafodd y gwaith o roi wyneb newydd ar redfa RAF y Fali fawr o effaith ar y nifer a fu'n teithio. Cafodd y PSO ei symud i/o RAF Mona ar Ynys Môn, na olygodd unrhyw newid i'r amserlen. Parhawyd i ddefnyddio adeilad terfynfa Maes Awyr Ynys Môn i ymgofrestru a sgrinio, a chludwyd y teithwyr oddi yno i/o RAF Mona i fynd ar neu i adael yr awyren.

Mae swyddogion yn gweithio gydag arbenigwyr allanol y diwydiant i ragweld y galw, i ddadansoddi'r economi ac i ystyried y cyfleoedd i estyn yr amserau agor ac i gynyddu maint awyrennau ym Maes Awyr Ynys Môn. Mae'r adroddiad drafft wedi dod i law a disgwylir y fersiwn derfynol ddiwedd yr hydref.

Yn unol â rheoliad yr EC 1008/2008 ar gyfer PSO, mae swyddogion wedi comisiynu arbenigwyr allanol y diwydiant i astudio dyfodol tymor hir y gwasanaeth. Bydd yr astudiaeth yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad drafft i ehangu gwasanaethau ar Ynys Môn, yn ogystal ag opsiynau eraill fel defnyddio meysydd awyr eraill, lleihau nifer y teithiau, rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth a chadw'r sefyllfa fel ag y mae. Bydd yr astudiaeth yn ystyried nifer y teithwyr ac effaith gymdeithasol ac economaidd rhoi'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i'r PSO ar waith. Disgwylir cwblhau'r adroddiad ddiwedd yr hydref gan effeithio ar ddewis gweithredwyr tymor hir yn y dyfodol.

Mae canlyniad refferendwm y DU i adael yr CE yn cael ei ystyried fel rhan o'r adroddiad uchod; fodd bynnag, Llywodraeth y DU fydd yn arwain y trafodaethau'n ganolog. Ni fyddai'n briodol felly i Lywodraeth Cymru geisio dyfalu beth yw dyfodol tymor hir PSOs na rheoliadau eraill.